

## Antur Hei Heil

Roedd hi dal yn dywyll er ei bod yn saith y bore ac es i lawr y staer. Gwichiodd y stepiau wrth i mi gamu o un i'r llall. Ac yn sydyn clywais sŵn yn dod oddi tanaf. Dychrynais a roeddwn yn wyn fel y galchen felly neidiais yr ychydig o stepiau oedd ar ôl. Edrychais tuag at y twll dan staer. Roeddwn yn siwr i mi glywed swm yn dod o'r tu mewn. Roedd yn dywyll ond llwyddais i ffeindio'r swits golau. Symudais y gadair fach bren a blanced goch arni. Agorais y drws a dyna lle oedd yr arth fach yn cysgu. Cap coch oedd ar ei ben ac roedd yn cysgu'n drwm.

Bu bron i mi neidio allan o'm croen. Ceisiais sgrechian ond ni allwn, dim ond gwich fach dawel a ddaeth allan o'm ceg. Caeais y drws yn glep a rhoi'r gadair bren nôl yn ei lle. Roeddwn yn fyr fy ngwynt a'm mhen yn llawn cwestiynau. Sut ddaeth o yma? Pwy oeddo? Oedd o'n gas neu garedig? Roedd fy ngwestiynau 'n ddiiddiwedd. Ceisiais ddod dros y sioc ond doeddwn methu. Roedd llun yr arth fach yn cysgu yn sownd yn fy mhen. Es i nôl y llaeth a'r cornfflêcs, roedd swm chwyrnu'r arth wedi tawelu erbyn hyn. Tybed a oedd o ar ddeffro? Ar ôl gorffen fy mrecwast mentrais yn nôl i'r cwpwrdd dan staer.

Edrychais yn ofalus, drwy'r twll bach yn nhop y drws. Bu bron i mi gwmpo yn fflat ar y llawr. Roedd dwy lygad fach las yn syllu arnaf drwy'r gwagle. Yna'n sydyn clywais swm y drws fyny staer yn agor felly baglais fyny'r staer a sibrwd. "Dwi wedi gweld arth!" "Be?!" ebychodd Dad. "Am be ti'n rwdlan?" Cerddais i a Dad yn ofalus i lawr y staer...

Cydiais yn dyn iawn yn llaw Dad. Roeddwn i ofn i'r arth fach neidio allan a ymosod arna i. Symudodd Dad y gadair bren ac agorodd y drws led y pen ar agor. Edrychodd y ddau ohonom ym mhob twll a chornel o'r twll dan staer ond nid oedd sôn am yr arth. "Ddedes i'n do!" "Ond Dad mae 'na!" "Lle?" "Mae o wedi mynd!" "Wel, paid ti a poeni ta, neith yr arth ddim byd i ti."

Doeddwn i methu deall wrth i mi eistedd i lawr ar y bws. Lle aeth yr arth fach yna? Holais fy hun. Aeth y diwrnod yn anarferol o araf. Wrth eistedd ar y bws ar y ffordd adref teimlais rhywbeth yn cyffwrdd fy mraich. Edrychais o gwmpas, ac er mawr syndod i fi, eisteddai yr union arth a oedd yn y twll dan staer y bore hwnnw. Gwenodd yr arth fach wrth sylwi fy mod yn edrych arno, a dywedodd mewn yr arth mewn llais gwichlyd "Helo!" Doeddwn methu credu fy llygaid na'm clustiau. "Arth yn gallu siarad!" meddais. "Ie, fi di Hei Hei. Sut wyt ti?" "Dwi'n iawn dwi'n meddwl!" "Wel i ti gael deall dwi'n mynd i ddysgu popeth i ti." "Waw!" meddais. "Dwi'n mynd i fyw yn y twll dan staer!"

Stopiodd y bus mini yn stond tu allan i'n tŷ ni. Carlamais i a Hei Hei i ffwrdd o'r bus fel dau geffyl gwyllt. Doeddwn i ddim yn siwr iawn be i wneud gyntaf. Yn od iawn sylweddolais bod y gyrrwr bus ddim wedi dweud dim byd am Hei Hei, na Mam chwaith pan ruthrodd y ddau ohonom i mewn i'r tŷ. Tybed ydy nhw'n gallu ei weld meddyliais. Penderfynais lowcio fy nhe i fynd i weld Hei Hei yn y twll dan staer. Doedd Mam methu deall beth oeddwn yn ei wneud yno.

Treulais weddill y dydd yn y twll dan staer, a dysgodd Hei Hei fi sut i ysgrifennu'n daclusach, a sut i odli. Ar ôl sawl awr brysur es i gael swper. Wrth fwyta'r sbageti bolonês gofynodd Mam "Sut ddiwrnod ges di heddiw?" "Da diolch. I ginio fe gefais frechdan ham, i de cefais dost a jam, amser egwyl bues yn esgus mynd a' r ddoli am dro yn y pram." Meddwn i "WAW sut ddygsaist ti odli fel'na?" O Hei Hei sydd wedi dysgu fi sut i odli. "Pwy ar y ddaear ydy Hei Hei?" holodd Mam yn ddryslyd "O Hei Hei ydy'n ffrind newydd i. Mae o'n mynd i ddysgu pethau i mi." " Waw am wych, lle mae o'n byw?" " Arth ydy Hei Hei a mae o'n mynd i fyw yn y twll dan staer." "Be?!!!" sgrechiodd Mam " Does na run arth yn cael dod yn agos at ein tŷ ni!!" "Ond Mam....." "Na, dim ond, does na run arth yn cael byw yn y tŷ yma!" gwaeddodd Mam yn benderfynol. Gorffennodd y ddau ohonom ein bwyd mewn tawelwch.

Ar ôl swper es i yn ôl i'r twll dan staer. Roedd gan Mam lawer o waith papur, felly byddwn yn siwr o gael llonydd. Pan es i i'r twll dan staer roedd Hei Hei wrthi'n sgwennu'n brysur fel corrach Siôn Corn. "Dwi'n ysgrifennu disgrifiad o fy ffrind gorau newydd, ti! Bachgen bach byr yw fy ffrind bach newydd. Mae ganddo wallt brown golau fel siocled a llygaid gwyrdd fel porfa o wair ffres. Mae o'n bump oed." "Dwi mor falch bo ti'n fy nysgu i, achos yn Ysgol Pentre Canol dydy plant o dan chwech oed ddim yn cael gwaith cartref, a dwi'n caru dysgu a gweithio, a gwneud tasgau newydd." Meddais wrth Hei Hei

Ymhen rhyw hanner awr clywais lais Mam yn gweiddi ei bod yn amser i fi fynd i'r gwely. Neidiais fel broga allan o'r twll dan staer. Yn anffodus i fi gwelais fod Mam yn edrych arna i yn y twll dan staer, a sylwais ei bod yn edrych os oedd Hei Hei yno. Dechreuais boeni a phanicio wrth i Mam ruthro tuag at y twll dan staer. Be dwi'n mynd i neud? Meddyliais yn fy mhen. Er mawr syndod i fi pan edrychodd Mam yn y twll dan staer, ni wnaeth hi sgrechian fel yr oeddwn yn disgwyl iddi. Y cwbl ddywedodd hi oedd "Ffiw! Dim ond esgus am yr arth oeddet ti!" Cefais ryddhad bo Mam ddim yn flin, ond hefyd siom am nad oedd yn fy nghoelio. Bues i'n meddwl sut oedd Hei Hei wedi llwyddo i ddiflannu pan edrychodd Mam a Dad yn y cwpwrdd. Estynais fy llyfr darllen newydd allan o'm mag. Fel arfer byddai darllen yn dipyn o sialens i fi ond oherwydd fy mod wedi

bod yn ymarfer efo Hei Hei hedfanais fel aderyn drwy'r llyfr mewn llai na deg munud. Doedd Mam methu credu sut ddarllenais i o mor gyflym. "Sut yn y byd wnest ti ddarllen mor gyflym?" "O, Hei Hei sydd sydd wedi dysgu fi ddarllen mor gyflym a llyfrgellydd."

Roedd wythnos wedi pasio bellach a roeddwn wedi trello hanner yr amser yn twll dan staer hefo Hei Hei. Roedd o wedi dysgu llawer iawn o bethau fel sut i wneud modelau gwych allan o glai, sut i ddal cylllell a fforc yn gywir a sut i wneud sgil gwych pêl-droed, a llawer o bethau eraill. Heddiw es i chwarae pêl -droed i'r tim dan chwech. Roedd hi'n un, un a defnyddiais sgil wych Hei Hei i fynd heibio'r amddiffynwr a sgorio i ennill y gêm.

Bore ma cefais fy neffro gan y cloc larwm a mynd yn syth i lawr i'r twll dan staer ond doedd Hei Hei ddim yno! Dechreais boeni a dechreuodd y dagrau lifo lawr fy mochau.

Wrth grwydro o gwmpas yn gweiddi "Hei Hei" es heibio'r gat dim mynediad heb sylwi. Yn sydyn clywais sŵn enfawr yn dod o'r dde i mi. Troiais yn sydyn fel mellten i weld tarw dur enfawr yn dod yn syth tuag ataf. Ro ni ar safle adeiladu "Aaaaaaaaaa" Sgrechiais. Wrth redeg i drio dianc es i'n syth i mewn i rhyw sarjant heddlu mewn siaced lachar.

Yn swyddfa'r heddlu roedd yr heddlu'n deall mae damwain oedd o ac eglurais bod fi'n chwilio am fy ffrind. "Mae o'n fyr iawn, brown golau i gyd a mae ganddo het fach goch fel y ddraig goch. Mae ei lygaid yn las fel y môr." "Iawn fe wnaing ngorau i dy helpu!"

Ar ôl diwrnod diflas yn aros am ganlyniad daeth cnoc ar y drws. Rhedais fel y gwynt i'w ateb ond yr ateb gan y sarjant oedd. "Mae'n ddrwg gen i ond ni ffeindiom dy ffrind bach." Daeth Mam at y drws mewn penbleth. "Pam bo chi yma? Ydy o wedi bod yn ddrwg?" "Na di siwr. Rydym wedi methu dod o hyd i'w ffrind bach dyna'i gyd. Gai eich manylion plis." "Be, pam est ti at yr heddlu heb ddweud wrthym ni!" Ymddiheurodd Mam am fy mod wedi achosi'r fath drafferth.

Am un tro ola fe es i'r twll dan staer. Ac er mawr syndod i mi pwy oedd yna ond Hei Hei! Codias Hei Hei yn uchel i'r awyr a bowsiodd y ddau ohonom o gwmpas i ddatlu!! Buodd y ddau ohonom yn ffrindiau am flynyddoedd.